

Newyddion Cefn Gwlad 2010

Sir Ddinbych ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd



Croeso

i Newyddion Cefn Gwlad Sir Ddinbych 2010

Mae eleni yn flwyddyn arbennig iawn i Wasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych a Bryniau Clwyd. Dathlwn 25 mlynedd ers i Fryniau Clwyd gael eu dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), pen-blwydd 200 mlynedd ers gosod carreg sylfaen Tŵr y Jiwbilî ar ben Moel Famau, ac mae'n nodi hefyd flwyddyn derfynol Cynllan Tirwedd y Grug a'r Caerau o dan nawdd Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Bu buddsoddi mawr iawn yn ardaloedd gwledig Bryniau Clwyd a Sir y Fflint a Sir Ddinbych er mwyn gwella, hyrwyddo a gweithio tuag at ddatblygu'r ardal yn gyrchfan twristiaeth gynaliadwy. Mae Tîm Cefn Gwlad Sir Ddinbych, partneriaid a gwirfoddolwyr wedi gweithio'n anhygoel o galed eleni ac rydym yn cynnwys rhai o'r cyraeddiadau amlwg yn y newyddlen hon. Diolch i'r holl bobl a fu'n rhan o'n gwaith.

Rydym yn mawr obeithio y byddwch yn mwynhau ein newyddion cefn gwlad...

Parc Gwledig Loggerheads

☎ 01352 810614 (yr wythnos)

☎ 01352 810586 (yr wythnos a gwyliau)

parcrgwledig.loggerheads@sirddinbych.gov.uk

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

Parc Gwledig Loggerheads, ger yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH

Swyddfa Rhuthun ☎ 01824 708261

Swyddfa'r Rhyl ☎ 01745 356197

Swyddfa Llangollen ☎ 01978 869618

www.sirddinbych.gov.uk/cefn gwlad

Ceir yr holl deithiau, digwyddiadau, newyddion a chyhoeddiadau addysg o'r gwefannau hyn.

www.ahnebryniauclwyd.org.uk

www.ygrugarcaerau.co.uk

www.clwydiancountry.co.uk - am lety a beth i'w wneud.



Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu, heb ei gannu, di-haen.



Mae'r prosiect hwn wedi ei ariannu drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig sydd yn cael ei gyllido drwy'r Undeb Ewropeidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Rhyfeddod yr Ardd Bywyd Gwyllt

Bu gwaith caled y gwirfoddolwyr yn llwyddiant mawr, a thrawsnewidiwyd y gerddi ym Mharc Gwledig Loggerheads i greu gardd hardd.

Erbyn hyn fe sefydlodd yn ardd wych i fywyd gwyllt a cheir yma flodau cynhenid fel llygad llo, gludlys coch, a phenlas yr yd sy'n help mawr i'r gloŷnnod byw a'r gwenyn yn ogystal ag yn atyniad i'r ymwelwyr. Roedd y pwll dŵr yn llawn o benbyliaid a gwelwyd llygod y dŵr yn defnyddio'r swp coed. Y gobaith yw y bydd yr ardd yn ysbrydoli ymwelwyr i greu ardal natur yn eu gerddi eu hunain er mwyn rhoi hwb i bryfed sy'n cael bywyd yn anodd.

Os hoffech gael cyngor ar sut i wella'ch gardd ar gyfer y bywyd gwyllt, neu os oes diddordeb gennych gymryd rhan, yna cofiwch gysylltu.



Llun y mis!

Hoffech chi rannu eich llun o'r dirwedd leol neu'r bywyd gwyllt? Buaswn i wrth ein bodd ei weld.

Dewch â'r ffotograff i Loggerheads i'w arddangos ac i ysbrydoli eraill i ddarganfod yr ardal ryfeddol hon rydym yn byw ynddi.



Balsam yr Himalaya

Y flwyddyn 2009 oedd blwyddyn gyntaf project uchelgeisiol cynllun partneriaeth tair blynedd i ddifa Balsam yr Himalaya o lannau'r Afon Alun o fewn Bryniau Clwyd a thu hwnt.

Rhywogaeth estron, ymledol yw Balsam yr Himalaya; cyflwynwyd i Ynysoedd Prydain yn 1839 o orllewin ardal yr Himalaya. Mae'n cytrefu glannau'r afon yn gyflym ac yn cael y gorau ar y planhigion brodorol. Yn 2008 daeth Cyngorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn ymwybodol o'r cynnydd cymharol gyflym o ran Balsam yr Himalaya ar lannau'r Afon Alun. Sefydlwyd cynllun Gweithredu Balsam yr Himalaya Dyffryn yr Alun gyda phartneriaeth gref a chefnogaeth y tirfeddianwyr. Rhaid tynnu'r planhigyn ar raddfa ddirweddol am fod yr hadau'n gallu teithio mewn dŵr i lawr yr afon. Gweithiwyd am dros 1000 o oriau ar y cyd i glirio'r planhigyn y llynedd, a gwirfoddolwyr oedd y mwyafrif o weithwyr. Eleni, rydym yn gobeithio annog hyd yn oed mwy o bobl i ddod yn rhan o'r gwaith o ddifa'r planhigyn estronol hwn o'n hafon.

Llwyddiant y blychau nythu yn Loggerheads

Bu gwirfoddolwyr Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych wrthi'n gwneud ac yn gosod bron i gant o flychau adar yn ystod y gaeafau diweddar gan obeithio y byddent yn denu'r gwybedog brith yn ôl i Loggerheads i nythu. Un o'r rhesymau am golli'r adar mudol hyn all fod prinder lleoedd nythu ar ddiwedd y gwanwyn. Yn aml iawn, ni fydd yr iâr yn cyrraedd tan tua chanol mis Mai ac erbyn hynny bydd yr adar eraill eisoes wedi dechrau nythu neu hyd yn oed ddeor y nythaid gyntaf. Mae'n hysbys byddai'r aderyn bach hwn yn defnyddio blwch nythu os oes un ar

gael iddyn nhw. Er mwyn atal adar eraill rhag defnyddio'r blychau nythu, fe osodwyd priciau yn y fynedfa, ac yna'u tynnu ar ddiwedd mis Ebrill. A do, fe weithiodd! Clywyd y gwybedog brith mewn sawl lle yn y parc yr haf diwethaf, a gwyliwyd pâr yn defnyddio blwch nythu! Wrth lanhau'r blychau yn yr hydref gwelwyd ychydig o nythod tebygol. Buaswn wrth ein bodd i gael gwybod am beth welsoch chi. Cofiwch gofnodi unrhyw beth yn y Ganolfan Cefn Gwlad. Croeso i wirfoddolwyr newydd unrhyw bryd!

Llwybr y Pentref

Llwybr cylchol newydd yn Llandyrnog yw Llwybr Tyrnog.

Ariannwyd y project Milltiroedd y Gymuned gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy Gynllun Hawl Tramwyo Cyngor Sir Ddinbych sy'n creu teithiau cerdded cylchol o gwmpas pentrefi ar lwybrau cyhoeddus sydd eisoes yn bodoli. Gosodwyd giatiau, camfeydd, arwyddion a disgiau Llwybr Tyrnog i wneud y daith yn hawdd ei dilyn.

Ceir taflen sy'n dangos y daith a gwybodaeth ddefnyddiol.

Diolch i'r Cyngor Cymunedol, grŵp hanes lleol, Ysgol Bryn Clwyd a thirfeddianwyr lleol.



Helfa drysor Hi-tec ar Fryniau Clwyd - y gyntaf yng Nghymru

Lansiwyd helfa drysor newydd a hwyliog yng Nghoed Moel Famau a Choed Nercwys ym Mryniau Clwyd ar gyfer teuluoedd, ysgolion a mudiadau.

Seilir Llwybrau Cyfrinachau'r Ddaear ar fath o geocache a elwir yn EarthCache. Aiff y peiriant GPS â chi i leoedd yn y wlad a rhoi gwybodaeth ichi ynghylch pam mae'r lleoedd hyn mor arbennig neu unigryw. Cewch gomic gyda phosau a gemau gyda'r GPS gan eich arwain ar daith drwy'r diriogaeth 350 o filiwn o flynyddoedd yn ôl, drwy Oes yr Iâ i'r gorffennol agos.

Gellir llogi'r offer; sef peiriant GPS llaw a dau lwybr wedi'i lwytho iddo, sach gefn, a chomic o Barc Gwledig Loggerheads. Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth a'r offer i gynnig diwrnod allan sy'n hwyliog ac yn anarferol.

Ar ôl darganfod yr atebion i'r posau, bydd gennych rif cyfrin i agor y gist yn Loggerheads er mwyn derbyn eich gwobr.

Diogelu Dinas Brân

Yn ystod y ddwy flynedd ar bymtheg ddiwethaf fe wariwyd £800,000 o arian oddi wrth Gyngor Clwyd - Cyngor Sir Ddinbych erbyn hyn - a Cadw, ar raglen i atgyfnerthu Castell Dinas Brân, Llangollen.

Pan ddaeth y castell yn eiddo'r awdurdod lleol yn y dechrau roedd y gwaith cerrig mewn cyflwr truenus. Petai wedi'i adael byddai rhannau o'r muriau wedi dymchwel yn sicr. Ddwy flynedd ar bymtheg yn ôl roedd rhan helaeth o'r furlen yn pwysu ar sylfaeni oedd wedi'u handwyo'n fawr ac wedi treulio gan y tywydd. Yn guddiedig o dan y muriau heddiw, mae pinnau dur, rhodau ffibr carbon concrit a rhubanau ffibr carbon, pob un yn help i gadw'r castell yn ddiogel ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Bu'r dasg yn waith arbenigol dros ben ac mae arnom ddyled fawr i'r seiri maen rhagorol a lwyddodd i drwsio'r safle gan adael ychydig iawn o arwyddion eu bod wedi bod yma o gwbl. Y gwaith a wnaed yn 2009/10 oedd trwsio rhannau o'r cilborth a hefyd clirio'r ardal sy'n gyfagos at y tŵr siâp D ar ochr ogleddol y castell. Er bod y sylfaen yn isel iawn erbyn hyn, mae'n rhoi gwell argraff o sut byddai'r tŵr wedi edrych pan oedd y castell ar ei anterth.

Aiff tua 35,000 o bobl i ben Castell Dinas Brân bob blwyddyn, er gwaetha'r ddring serth. Os na fuoch chi i fyny, wel ewch da chi! Gallwch gerdded o ganol tref Llangollen neu o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa wrth droed Creigiau'r Eglwyseg. Cewch eich rhyfeddu gan un o gestyll cerrig Cymreig gwyachaf Cymru (adeiladwyd y tu mewn i fryngaer Oes yr Haearn). Hefyd, cewch olygfeydd gwych i'r dwyrain a Sir Amwythig, i'r gorllewin a Chorwen a Dyffryn y Ddyfrdwy. Efallai gwelwch farcud uwchben a chlywed sŵn y trê'n wrth iddo ymlwybro ar hyd y Dyffryn - hudolus!





Ardal natur newydd

Trawsnewidiwyd ffordd nad yw'n cael ei defnyddio bellach yng nghysgod Castell Rhuddlan yn warchodfa natur wych i'r teulu.

Erbyn hyn ceir cymysgedd o flodau gwyllt, coed newydd eu plannu a llynnoedd dŵr yn yr ardal. Bu gwirfoddolwyr lleol, staff Cronfa Gwaith y Dyfodol, Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych i gyd yn glanhau'r llynnoedd, plygu gwrychoedd, plannu 7,000 o goed newydd, hau blodau gwyllt a chlirio chwyn ymhlith gwaith arall. Oherwydd y llwybr sydd ag wyneb arno, mae'n fwy hygyrch i olwynion ac i draed ac mae byrddau picnic a phaneli dehongli yn gyfle i bobl ymlacio a darganfod mwy am y warchodfa.

Cronfa Datblygu Cefn Gwlad Cadwyn Clwyd fu'n ariannu'r project anferth hwn sy'n enghraifft dda o gydweithredu mewn partneriaeth. Diolch i bwyllgor eco Ysgol Y Castell.

Golygfeydd y Twyni

Agorodd Jane Davidson, Gweinidog Cynulliad, rannau Sir Conwy a Sir Ddinbych o lwybr Arfordirol Cymru Gyfan sy'n 44.4km o hyd. Un o leoedd gorau'r llwybr yw'r byrddau a'r llwyfan gwyllo ar Drwyn Horton, y Rhyl. Dwy fantais arall yw gwell mynediad a llai o erydu ar y twyni tywod. O'r llwyfan gwyllo mae modd gweld o gwmpas am 360 gradd tuag at Eryri, i'r môr, prom y Rhyl a Bryniau Clwyd.

Mae'r paneli'n dehongli rhai o'r golygfeydd a cheir lluniau hardd gan yr arlunydd lleol, Judith Samuel. Diolch i bawb a gyfrannodd eu hatgofion a'u lluniau.



- ▶ Erbyn hyn caed 5 mlynedd o lwyddiant yng Ngronant! Yn 2010 cofnodwyd y niferoedd uchaf o barau o forwenoliaid bach yn bridio (cyfanswm o 114), a chywion morwenoliaid bach yn hedfan (cyfanswm 216).
- ▶ Dechreuodd y gwaith yng Nglan Morfa, y Rhyl, yn rhan o ddatblygu canolfan ailgylchu a llwybr beicio.
- ▶ Daeth cynrychiolwyr o bump o ysgolion ar hyd a lled Ewrop i Ysgol Uwchradd Dinbych ym mis Mai 2010. Aethant ar ymweliad i Ben y Coed yn Ninbych, plannu un goeden gyfeillgarwch yr un a mwynhau'r gwaith a wnaeth y disgyblion yn ystod y pedair blynedd olaf.
- ▶ Gwelwyd tingoch ddu am y tro cyntaf yn Nhrwyn Horton, y Rhyl



- ▶ Mae'r gwaith plygu gwrychoedd wedi gwella'r fynedfa i Bwll Dŵr Brickfields y Rhyl, gan leihau'r sbwriel sy'n chwythu i'r safle.

- ▶ Erbyn hyn ceir system newydd o fapiau rhyngweithiol yng Nghaffi Cymru - Canolfan Clawdd Offa yn wreiddiol - ym Mhrestatyn.
- ▶ Enillodd David Scruton, perchennog Gwely a Brecwast Hafan Deg, wobr Bryniau Clwyd am ei gyfraniad at dwristiaeth gynaliadwy a chadwraeth.
- ▶ Mae'r wefan newydd www.ahnebryniau.clwyd.org.uk yn gweithio erbyn hyn.
- ▶ Bu Theatr y Promenâd yn llwyddiant mawr yn Loggerheads yn ystod yr haf.



- ▶ Roedd yr arbenigwr ffasiynau Gok Wan ar ben Moel Famau yn ffilmio rhifyn o'i sioe 'How to Look Good Naked' gyda Thim Achub Gogledd Ddwyrain Cymru.

- ▶ Mwynhaodd Derek y dyn tywydd dro o gwmpas Parc Gwledig Moel Famau a Bryngaer Moel Fenlli ar gyfer y rhaglen 'Weatherman Walking' BBC Cymru.
- ▶ Bu Jules Hudson â phâr oedd yn chwilio am gartref newydd i Barc Gwledig Loggerheads i ddysgu mwy am reoli coedlannau hynafol drwy docio, ar gyfer rhaglen 10 yn ygyfres Escape to the Country



Adluniad tomen gladdu

Tair blynedd o lwyddiant i'r Grug a'r Caerau

Yn ystod y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf bu'r Prosiect y Grug a'r Caerau yn cyflawni llawer iawn o waith i warchod ac i ddeall y bryngaerau a'r rhostiroedd grug ar Fryniau Clwyd a Mynyddoedd Llantysilio.

Treftadaeth ein Bryngaerau

Cyn cychwyn y cynllun hwn, ni ddychmygodd neb erioed y byddai'r gwaith o wella'r llwybrau heb niweidio'r archeoleg yn datguddio carreg- wrth chwilio am domen gladdu Oes yr Efydd- ac arni ysgrifen gan filwr o Ganada yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf; na chwaith y byddai myfyrwyr o Brifysgol Bangor yn cloddio ar Foel y Gaer, Llanbedr, ochr-yn-ochr â myfyrwyr o Fiena. Datgelodd y cloddio a wnaed ym Mai 2009 ar fryngaer Penycloddiau bod yma dystiolaeth o domen gladdu Oes yr Efydd. Roedd lladron beddau'r 19eg ganrif wedi cymryd beth bynnag oedd yn y bedd, ond fe ailadeiladwyd y domen ar ôl y cloddio archeolegol er mwyn diogelu'r archeoleg oedd yn parhau ac i roi syniad i ymwelwyr ynghylch sut fyddai'r domen gladdu'n edrych yn ei chyfnod (gweler y llun uchod).

Rheoli ein Rhostiroedd

Cafodd trigain erw o dir mynydd ei reoli drwy dorri a llosgi ar Foel Famau a Moel y Parc. Mae'r ddwy foel o dan y cynllun Tir Gofal yn awr. Prynwyd offer arbenigol yn gymorth i reoli'r mynydd a helpu'r gwasanaeth tân, Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych, a thirfeddianwyr i fynd i'r afael ag unrhyw danau ar y mynydd.

Gwaredwyd dros 1000 o erwau o redyn drwy chwistrellu, ac yn awr gall defaid bori ar y mynydd mewn ardaloedd sydd heb fod ar gael iddynt ers dros ddeugain mlynedd. Cafodd tua phum erw o fynydd grug eu hadfer ar ôl eu difetha gan gerbydau oddi-ar-y-ffordd ar Fynyddoedd Llantysilio.

Mynd o Gwmpas

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, drwy gydweithio mewn partneriaeth ag adrannau trafnidiaeth yr awdurdod lleol, fe gysylltwyd y ffyrdd bysiau â theithiau cerdded yn yr ardal ac fe barhaodd Gwasanaeth Bws Bryniau Clwyd. Cafodd geiriau'r ymgyrch 'Ar garreg eich drws' a lluniau'r ardal eu gosod mewn lle amlwg ar gefn bysiau lleol gan godi proffil yr ardal a chymhell pobl i ddod i ymweld â'r ardal ar y bws.

Ymateb i'r Her

Bu galluogi pobl ifanc o bob gallu i gydweithio er mwyn cwblhau tasgau cefn gwlad yn un o elfennau mwyaf dymunol y Cynllun y Grug a'r Caerau. Roedd y gorchwyl o greu timoedd a chodi hyder yn golygu rhoi adar yn ôl yn eu nythod, symud dŵr heb gyffwrdd â'r fwced, taro targed gyda chanon ac achub gwrthrych drwy lenwi pibell â dŵr. Mwynhaodd pawb y diwrnod a theimlo eu bod wedi cyflawni rhywbeth pwysig.

Deall ein Tir Mynydd

Bob blwyddyn, daw dros hanner miliwn o ymwelwyr i Fryniau Clwyd, mynydd Llantysilio a'r ardaloedd cyffiniol, ond mae llawer heb ddeall arwyddocâd naturiol a hanesyddol y dirwedd arbennig hon. Drwy ddefnyddio'r technegau traddodiadol a'r dechnoleg newydd rydym wedi creu nifer o adnoddau sy'n dangos ardal y project ar ei gorau:

- Gwefan newydd sbon gyda map rhyngweithiol, gemau, a llinell amser efo cymeriadau a grwydrodd y bryniau yn y gorffennol
- Cist o Adnoddau Addysgol i ysgolion
- Cyfres o Lwybrau Treftadaeth lle gall ymwelwyr ddod o hyd i bwyntiau sain ar eu ffonau symudol neu drwy lwytho i lawr am ddim fersiwn mp3 o'r wefan.
- HD DVD o ardal y project gan gynnwys golygfeydd symudol o'r awyr a hedfan yn rhithiol gan roi cyfle i newid rhwng y dirwedd fel mae hi heddiw i dirwedd Oes yr Haearn rhyw 2500 o flynyddoedd yn ôl. A gallwch lanio o'r awyr ar gaer Penycloddiau i'w harchwilio
- Dechreuodd y gwaith ar faes parcio Bwlch Pen Barras ar Foel Famau, mewn partneriaeth â'r Comisiwn Coedwigaeth er mwyn creu'r 'synnwyr o le' yn y maes parcio. Gan ddefnyddio nodweddion ein gorffennol yn y cynllun a bydd y maes parcio newydd yn parchu'r wlad hardd o gwmpas ac yn ychwanegu haen arall o brofiad i'r ymwelwyr.

Mae'r project tair blynedd y Grug a'r Caerau yn fenter £2.3 miliwn ar gyfer gwaith cadwriaethol y mynydd. Derbyniodd gymhorthdal o £1.5 miliwn o'r Gronfa Loteri Treftadaeth.

I gael mwy o wybodaeth ewch i heatherandhillforts.co.uk, a gallwch ein dilyn ar twitter! Ewch i www.twitter.com/HeatherHillfort neu ewch i'n tudalen Facebook i gael newyddion diweddar am y cynllun



Brenin o lwybr- Llwybr y Brennig

Aeth ein Warden Llwybrau Rhanbarthol i gerdded Llwybrau coll De Sir Ddinbych er mwyn creu trywydd newydd sy'n cysylltu Corwen a Llyn Brenig.

Ar y llwybr hwn eir heibio golygfeydd syfrdanol ac ar yr un pryd bydd teithwyr yn cefnogi busnesau lleol yn y pentrefi. Bydd Llwybr y Brenig tua 33 milltir o hyd. Ymunodd Warden Llwybrau Rhanbarthol cynorthwyol â'r tîm i sicrhau y gosodir y cant neu fwy o arwyddion a saethau a chamfeydd a bod y llwybr yn rhydd o ordyfiant.

Buaswn yn ddiolchgar dros ben am unrhyw gymorth - os hoffech wirfoddoli yna ffoniwch 01978 869616

Bws y Brenig

Erbyn hyn mae gwasanaeth bysiau yn rhedeg (rhif 72) o Gorwen i Ganolfan Croeso Llyn Brenig a'r Llwybr Archeolegol.

Mae'n rhedeg ddwywaith bob dydd yn yr wythnos a theirgwaith ar y penwythnos. Cynigia wasanaeth gwerthfawr i'r cymunedau lleol a chyflwyno cyfleoedd newydd i gerdded yn y rhan anghysbell a hardd hon. www.traveline-cymru.info

Codi'r Faner Werdd

Derbyniodd Parc Gwledig Loggerheads wobwr bwysig y Faner Werdd. Dechreuodd y cynllun y Faner Werdd yn 1996 er mwyn cydnabod a gwobrwyo mannau glas gorau'r wlad.

Dull yw'r cynllun o gymell pobl i gyrraedd yr un safon amgylcheddol gan greu maen prawf o ragoriaeth o ran ardaloedd glas i hamddena.



Bryniau Clwyd - Cyrchfan i Dwristiaeth Gynaliadwy

Galluogodd y Gronfa Datblygu Wledig, a weinyddir gan Gadwyn Clwyd, a Chronfa Datblygu Cynaliadwy Bryniau Clwyd weithredu Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy ar gyfer Bryniau Clwyd.

Dyma'r Uchelbwyntiau....

- ▶ Erbyn hyn mae dros wyth deg o aelodau busnes yn y Grŵp Twristiaeth Gynaliadwy Bryniau Clwyd Cynhaliwyd y Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy cyntaf ym mis Hydref 2009. Bu'r grŵp yn dathlu eu bod wedi derbyn Siarter Europarc am Dwristiaeth Gynaliadwy mewn ardaloedd a ddiogelir ym mis Tachwedd 2009. Cyfieithwyd gwefan clwydiancountry.co.uk i'r Almaeneg, y Ffrangeg, y Sbaeneg, yr Eidaleg a'r Iseldireg.
- ▶ Datblygwyd Cynllun Rheoli Loggerheads a'r Cynllun Dehongli.
- ▶ Adroddiad Hydro i archwilio a yw Melin Pentre yn Loggerheads yn gallu creu ynni trydan a sut.



- ▶ Llwybr pren wedi'i gwblhau yn Loggerheads sy'n cysylltu Llwybr y Lit â'r bont. Bydd y llwybr cylchol ar lan yr afon yn gaffaeliad mawr i'r parc. Bu dros 800 o blant yn cymryd rhan yn ein llwybr cylchol y Pasg cyntaf.

- ▶ Cyhoeddi rhifyn 6 cylchgrawn Bryniau Clwyd
- ▶ Gwella brand Bryniau Clwyd i gryfhau proffil Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd. Bydd yn codi ymwybyddiaeth o Fryniau Clwyd a'r holl sydd gan yr ardal i'w gynnig i'r ymwelwyr gan hyrwyddo profiadau o safon, aros yn hirach a dychwelyd yn amlach.
- ▶ Bu'r Nadolig ym Mharc Gwledig Loggerheads yn brofiad peilot llwyddiannus i deuluoedd.
- ▶ Defnyddiodd 526 o bobl y gwasanaeth bws gwennol a gysylltodd Loggerheads â Pharc Gwledig Moel Famau bob hanner awr yng ngwyliau'r haf. Hyderwn y gallwn gynnig y gwasanaeth eto yn haf 2011

Dyma rai digwyddiadau i edrych ymlaen atyn nhw...



- ▶ Digwyddiadau i ddathlu 25 o flynyddoedd ers dynodiad Bryniau Clwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.
- ▶ Dathliadau 200 mlwyddiant codi Tŵr y Jiwbiil yn arwain at barti ar 24 Hydref 2010: www.jubileetower200.co.uk.

- ▶ Arwyddion a dehongli newydd ym Mharc Gwledig Loggerheads.
- ▶ Taflen ynglŷn â Bryniau Clwyd.